# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 4

SAFONAU

## PENNOD 5

SAFONAU SY'N BENODOL GYMWYS

### 41 Safonau gwahanol yn ymwneud ag ymddygiad penodol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os bydd rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (e) o adran 26(1) yn pennu nifer o safonau o'r math y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw mewn perthynas ag ymddygiad penodol.

(2) Caiff rheoliadau o dan adran 39 ddarparu ar gyfer un neu ragor o'r canlynol—

(a) i un safon fod yn benodol gymwys i un person, i ddau berson neu i ragor, neu i grŵp o bersonau;

(b) i ddwy safon neu ragor fod yn benodol gymwys i un person, i ddau berson neu i ragor, neu i grŵp o bersonau;

(c) i safonau gwahanol fod yn benodol gymwys i bersonau gwahanol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 41 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 41 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2012/969, **ergl. 2(i)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2012.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 41.